Adnodd 5.b

## Atebion Senarios

**Senario 1**

Ydy, mae'r ddau berson yn torri'r gyfraith. Mae'r deliwr wedi cyflawni dwy drosedd, sef bod ym meddiant a chyflenwi. Mae Sbîd yn gyffur dosbarth B ac uchafswm y ddedfryd am gyflenwi'r cyffur hwn yw 14 mlynedd o garchar a / neu ddirwy ddigyfyngiad. Mae Jason wedi cyflawni'r drosedd o fod ym meddiant. Uchafswm y ddedfryd am fod ym meddiant cyffur dosbarth B yw 5 mlynedd a / neu ddirwy ddigyfyngiad.

**Senario 2**

Ydy, mae Sian a Joanne yn euog. Er bod Sian wedi cael y cyffur drwy bresgripsiwn, mae'n cyflawni'r drosedd o'i gyflenwi pan fo'n ei roi i Joanna yn anghyfreithlon. Mae tawelyddion yn gyffuriau dosbarth C a gan fod Sian yn eu cyflenwi i Joanna gallai dderbyn uchafswm dedfryd o 14 mlynedd o garchar a / neu ddirwy ddigyfyngiad. Wrth gymryd y cyffur mae Joanna hefyd yn euog o fod ym meddiant cyffur dosbarth C. Uchafswm y ddedfryd am fod ym meddiant dosbarth C yw 2 flynedd o garchar a / neu ddirwy ddigyfyngiad.

**Senario 3**

Mae John a Gareth yn euog o fod ym meddiant cyffur dosbarth B sydd ag uchafswm dedfryd o 5 mlynedd o garchar a / neu ddirwy ddigyfyngiad. Mae dyletswydd ar Bethan, fel rheolwr yr hostel, i fod â gofal am y bechgyn a gallai wynebu cosb am ganiatáu i'r cyffur anghyfreithlon gael ei ysmygu yn y fangre ac o bosibl gallai golli ei swydd.

**Senario 4**

Ydy, mae Kevin yn torri'r gyfraith; mae ym meddiant cyffur dosbarth A. Uchafswm y ddedfryd ar gyfer hyn yw 7 mlynedd o garchar a /neu ddirwy ddigyfyngiad. Hefyd, gan ei fod wedi bwriadu rhoi'r cyffuriau i'w ffrindiau, gallai hefyd gael ei gyhuddo o fod ym meddiant gyda'r bwriad i gyflenwi, sydd ag uchafswm dedfryd o garchar am oes a / neu ddirwy ddigyfyngiad gan ei fod yn gyffur dosbarth A. Gallai'r deliwr gwreiddiol a'i cyflenwodd i Kevin hefyd wynebu uchafswm dedfryd o garchar am oes a / neu ddirwy ddigyfyngiad gan iddo gyflenwi'r cyffur dosbarth A i Kevin. Pe bai Kevin wedi rhoi'r cyffur i'r 15 o'i ffrindiau a'u bod yn cael eu dal gydag ef yn eu meddiant gallai'r ffrindiau wynebu uchafswm dedfryd o 7 mlynedd o garchar a / neu ddirwy ddigyfyngiad.

**Senario 5**

Ydy, mae'r oedolyn sy'n prynu'r sigaréts yn torri'r gyfraith gan ei fod yn eu prynu gan fwriadu eu rhoi i berson sydd dan oed. Byddai'r siop, os oedd hi'n gwybod am hyn, hefyd mewn trafferth. Gallai effeithio ar ei thrwydded i werthu cynhyrchion tybaco. Gallai Mai fynd i drafferth am ei hymddygiad gwrthgymdeithasol. Gallai'r person gael dirwy a/neu orchymyn cymunedol. Gallai'r siop gael dirwy drom a cholli ei thrwydded. Gallai Mai dderbyn gorchymyn gwrthgymdeithasol o ganlyniad os yw'n berthnasol.

**Senario 6**

Ydy, mae gan Brian gyffur Sylweddau Seicoweithredol Newydd (SSN) sy'n cynnwys olion cocên. Mae hwn yn gyffur dosbarth A felly mae ym meddiant cyffur anghyfreithiol a gallai wynebu uchafswm o 7 mlynedd o garchar, yn dibynnu ar benderfyniad y barnwr.

**Senario 7**

Ydy, mae'r tair merch ym meddiant cyffur anghyfreithlon dosbarth B er nad oeddent yn gwybod hyn a gallent wynebu uchafswm o 5 mlynedd mewn carchar, yn dibynnu ar benderfyniad y barnwr. Hefyd, mae Ffion yn cyflenwi i'w ffrindiau felly gallai ei chosb gael ei gynyddu i uchafswm o 14 mlynedd gan ei bod ym meddiant y cyffur ac yn cyflenwi.

**Senario 8**

Ydy, gallai'r tri fod yn torri'r gyfraith am resymau gwahanol. Byddai Ali yn cael ei arestio am fod ym meddiant cyffur dosbarth B; uchafswm dedfryd o 5 mlynedd. Gallai John gael ei gyhuddo o fod ym meddiant ac o gyflenwi cyffur dosbarth B; uchafswm dedfryd o 14 mlynedd. Byddai Bill hefyd yn cael ei gyhuddo o gyflenwi er nad yw ym meddiant y cyffur; uchafswm dedfryd o 14 mlynedd. Nid oes angen i'r tri wybod bod olion meow ynddo. Fe'i dosberthir nawr yn gyffur dosbarth B ac nid yw anwybodaeth yn amddiffyniad.